# Llamu Ymlaen – Cyngor Sir y Fflint

Blwyddyn Archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3456A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir y Fflint yn rhan o waith a gyflawnwyd/gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015].

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol neu unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach ymlaen yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Argymhellion 7

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach ymlaen yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o’r egwyddor datblygu cynaliadwy 8

Asedau 8

- Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma 8
- Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid ar fentrau ar y cyd sy'n gysylltiedig ag eiddo 9
- Caiff cynllun rheoli asedau y Cyngor ei fonitro ond nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad 10

Gweithlu 11

- Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig 11
- Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Gweithio Hybrid 12
- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion cyfredol y gweithlu ond nid yw’n meincnodi ei berfformiad 13

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Wrth i'r byd symud ymlaen, gan ddysgu o'r pandemig byd-eang, mae'r adolygiad hwn wedi edrych ar sut mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a chynnal y broses o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a chymunedau allweddol.

2 Gwnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu:

a. o ran asedau, ein prif ganolbwynt oedd swyddfeydd ac adeiladau y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau i'w drigolion ohonynt; ac

b. o ran y gweithlu, rydym wedi canolbwyntio ar yr heriau a amlygwyd yn ystod y pandemig sydd wedi gwaethygu rhai materion gweithlu hirsefydlog.

Gwnaethom edrych ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio'n strategol i ddefnyddio ei asedau a'i weithlu, sut mae'n monitro'r defnydd ohonynt a sut mae'n adolygu ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.

3 Pan yr oeddem ni'n dechrau ar ein gwaith archwilio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gwnaethom gydnabod y byddai'n cymryd amser i gyrff cyhoeddus wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Rydym hefyd yn nodi ein disgwyliad, dros y tymor canolig, i gyrff cyhoeddus allu dangos sut mae'r Ddeddf yn llunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae bellach yn agosáu at saith mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac rydym yn ail gyfnod adrodd y Ddeddf yn awr. Felly, rydym yn disgwyl bellach i gyrff cyhoeddus allu dangos bod y Ddeddf yn rhan annatod o'u ffordd o feddwl ac sy'n wir lywio yr hyn y maent yn ei wneud.

4 Roedd tri phrif nod i'r prosiect hwn:

- cael sicrwydd bod y Cyngor yn rhoi trefniadau ar waith i drawsnewid, addasu a chynnal y modd y darperir gwasanaethau
- esbonio'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd yn unigol ac mewn partneriaeth i gryfhau ei drefniadau yn ogystal ag ymwreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach; ac
- ysbrydoli'r Cyngor a sefydliadau eraill i gryfhau eu trefniadau ymhellach drwy gasglu a rhannu enghreifftiau o arferion nodedig, a thrwy ddysgu a gwneud argymhellion priodol.

5 Mae hyn yn bwysig oherwydd bod Cyngor Sir y Fflint yn buddsoddi symiau sylweddol yn ei asedau adeiladau a'i weithlu. Mae rhywfaint o wybodaeth allweddol o 2020-21 yn **Arddangosyn 1**.

**Arddangosyn 1: ffeithiau a ffigurau allweddol sy’n ymwneud ag asedau adeiladau a’r gweithlu. Mawrth 2021**

| | |
|---|---|
| Nifer yr adeiladau yr oedd y Cyngor yn berchen arnynt yn 2020-21 | 530 o adeiladau a stoc dai |
| Gwerth eiddo, ar 31 Mawrth 2021 | Oddeutu £762 miliwn |
| Gostyngiad yng nghyfanswm y lle swyddfa o 2013 hyd 2019 (mewn metrau sgwâr) | 2013: 16,204<br>2019: 14,125 |
| Nifer y staff | 4,730 |
| Canran y gweithlu oedd yn wrywod | 35% |
| Canran y gweithlu oedd yn fenywod | 65% |
| Canran y staff sy'n gweithio'n llawn amser | 54. 9% |
| Canran y staff sy'n gweithio'n rhan amser | 45. 1% |
| Canran y staff dros 55 oed | 31.2% |
| Nifer y staff a adawodd y Cyngor o’u dewis eu hunain yn 2020-21 | 354 |

6 Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y galw am adeiladau a'r ffordd y mae staff yn gweithio. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhai o'r effeithiau hyn a'r ffordd y mae'r Cyngor yn elwa ar y nodweddion cadarnhaol ac yn lliniaru risgiau o'r nodweddion negyddol wrth gynllunio ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

7 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A yw dull strategol y Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid? Wrth wneud y gwaith hwn, gwnaethom nodi rhywfaint o effaith uniongyrchol y pandemig yn ogystal â rhai materion gweithredu a llywodraethu a waethygwyd gan y pandemig.

8 Yn gyffredinol, canfuom fod y Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach ymlaen yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma;
- mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid ar fentrau ar y cyd sy'n gysylltiedig ag eiddo;
- caiff cynllun rheoli asedau y Cyngor ei fonitro ond nid yw'n meincnodi ei berfformiad;
- mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig;
- mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Gweithio Hybrid;
- mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion presennol y gweithlu ond nid yw'n meincnodi ei berfformiad.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Argymhellion |
| --- |
| **Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**<br>A1 Dylai'r Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei ystyriaethau yn y dyfodol o ran ei asedau a'i weithlu, gan adeiladu ar brofiad o'r pandemig, er mwyn datblygu dull hirdymor o ymdrin â'i asedau a'i weithlu, sydd wedi ei integreiddio â chynlluniau allweddol eraill ac a gefnogir gan gynlluniau cyflawni wedi eu costio. |
| **Data a Meincnodi**<br>A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu ymhellach y defnydd o ddata a meincnodi i lywio gwaith cynllunio, pennu cyllidebau ac i fesur llwyddiant mwy hirdymor ei fentrau asedau a gweithlu. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn gweithio i weithredu ei weledigaeth a'i gynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach ymlaen yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor o'r egwyddor datblygu cynaliadwy

## Asedau

### Mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau clir i gyflawni amcanion corfforaethol blaenorol ond nid yw wedi manteisio ar y cyfle i'w ail-lunio ar gyfer yr hirdymor hyd yma

#### Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig

10 Mae strategaeth rheoli asedau clir a chynlluniau cyflawni datblygedig yn bwysig er mwyn nodi'r defnydd o asedau a fwriedir dros y tymor byr a'r tymor hwy; y cyllid sydd ar gael i gynnal a datblygu asedau, yn ogystal â lefel y galw am wasanaethau a ragwelir yn y dyfodol, a'r gost o'u darparu. Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae'r strategaeth rheoli asedau yn cyd-fynd ac wedi'i hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys, gweithio ystwyth, y gweithlu, digidol a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a ddaw yn sgil pandemig COVID-19 byd-eang helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau a ddarperir.

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn nodwyd y canlynol gennym:

- mae gan y Cyngor Gynllun Rheoli Asedau corfforaethol (AMP) 2020-26. Nod allweddol datganedig yr AMP yw 'symud tuag at bortffolio asedau gorau posibl'.
- mae'r Cyngor wedi ystyried yr asedau sydd eu hangen arno i gyflawni ei amcanion corfforaethol yn effeithlon ac mae hyn wedi diffinio sut ffurf dylai fod ar bortffolio asedau gorau posibl. Mae'r AMP yn cyfrannu at gyflawni amcanion llesiant y Cyngor. Er enghraifft, yng nghanol tref y Fflint defnyddiodd y Cyngor ei dir a'i eiddo ei hun i hwyluso datblygiad cynllun gofal ychwanegol a chanolfan feddygol a thros gant o dai fforddiadwy newydd.
- mae'r Cyngor eisoes wedi newid y ffordd y mae'n defnyddio ei adeiladau o ganlyniad i'r pandemig. Mae patrymau gweithio ystwyth ar gyfer staff nad ydynt yn staff rheng flaen wedi lleihau faint o le ar gyfer swyddfeydd sydd ei angen. Mae enghreifftiau hefyd o newidiadau i wasanaethau rheng flaen yn

ystod y pandemig a allai leihau'r angen am adeiladau os cânt eu mabwysiadu ar gyfer yr hirdymor, e.e. staff rheng flaen y gwasanaethau tai sy'n gweithio gartref. Wrth i'r Cyngor gael gwell dealltwriaeth o sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu ar ôl COVID-19, dylai barhau i adolygu ei asedau i wneud yn siŵr eu bod yn diwallu anghenion sy'n newid.

- fodd bynnag, nid yw'r AMP wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r amgylchedd ar ôl y pandemig. Mae Polisi Gweithio Hybrid y Cyngor a gymeradwywyd ym mis Awst 2022 yn dangos ymrwymiad i fodel newydd o weithio a allai newid y ffordd y mae swyddfeydd yn cael eu defnyddio. Mae'r Cyngor o'r farn bod ansicrwydd ynglŷn â beth fydd anghenion gweithle'r dyfodol ac mae angen mwy o amser i fyfyrio. Er bod aelodau a swyddogion y buom yn siarad â nhw yn ymwybodol o rai o'r ffactorau hirdymor a fydd yn dylanwadu ar yr angen am asedau a'u defnydd yn y dyfodol, heblaw am ddatgarboneiddio nid yw'r rhain wedi'u mynegi'n ffurfiol eto nac yn cael eu hadlewyrchu yn ei gynlluniau ar gyfer asedau. Er enghraifft, cyfeiriodd nifer o bobl y buom yn siarad â nhw at yr effaith ar asedau technoleg newydd a'r newid i fwy o wasanaethau digidol yn y dyfodol mewn ymateb i'r galw gan ddefnyddwyr y gwasanaethau.
- mae angen i'r Cyngor roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei weledigaeth o ran asedau corfforaethol yn y dyfodol a chefnogi cynlluniau i'w helpu i gyflawni ei ddyheadau o ran y gweithlu a darparu gwasanaethau, nawr ac yn y dyfodol. Dylai hyn helpu i sicrhau bod ei asedau yn cael yr effaith fwyaf, ar draws ystod o'i amcanion. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd angen adnewyddu'r AMP presennol yn sgil y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig a'i Gynllun Corfforaethol newydd. Er mwyn datblygu cynlluniau cyflawni newydd wedi'u costio, bydd angen nid yn unig i'r Cyngor gael AMP wedi'i adnewyddu ond strategaeth ariannol newydd tymor canolig.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio â phartneriaid ar fentrau ar y cyd sy'n gysylltiedig ag eiddo

### Pam mae rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

12 Mae'n bwysig bod cynlluniau rheoli asedau yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod y gwariant gwirioneddol cyn agosed â phosibl at y lefelau arfaethedig a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithredu effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau mewn cysylltiad â'u hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Pan nad oes gan gynghorau yr ystod o sgiliau, yr wybodaeth, na'r arbenigedd i reoli'n effeithiol o ran rheoli asedau parhaus a chyflawni newidiadau strategol, gallai hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

13 Wrth ddod i'r casgliad hwn nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor wedi gweithredu prosiectau allweddol ei Gynllun Rheoli Asedau, mae prosiectau eraill eto i'w cychwyn. Yn fwyaf nodedig, ers 2017, mae'r Cyngor bellach yn gweithredu o ddwy brif swyddfa yn unig: Neuadd y Sir yn Yr Wyddgrug a Tŷ Dewi Sant, yn Ewlo, Mae dros 70% o staff swyddfa yn gweithio yn Nhŷ Dewi Sant. Yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu symud ei swyddogaethau democrataidd canolog craidd o Neuadd y Sir i swyddfeydd newydd ac yna ailddatblygu safle'r Wyddgrug ar gyfer defnyddiau eraill. Yn 2020, dymchwelodd y Cyngor yr adeiladau gwag yn Neuadd y Sir oherwydd disgwylir i'r safle gael ei ailddatblygu yn y dyfodol. Mae staff swyddfa hefyd yn gweithio mewn pum swyddfa ategol ('Sir y Fflint yn Cysylltu' yn y Fflint, yr Wyddgrug, Bwcle, Cei Connah a Threffynnon).
- gall y Cyngor amlygu ei fod yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth wneud penderfyniadau strategol sy'n gysylltiedig ag asedau eiddo. Mae'r Cyngor yn dilyn Egwyddorion Cenedlaethol ar Gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, Cyfranogaeth Cymru. Er enghraifft, ymgysylltodd y Cyngor â phobl yn byw yn y Fflint a Chei Connah ar ei gynigion ar gyfer Cynllun Ailgylchu newydd ar gyfer aelwydydd a chafodd hyn gyhoeddusrwydd eang.
- mae'r Cyngor yn cydweithio'n rheolaidd gyda phartneriaid ar fentrau ar y cyd. Mae pump o swyddfeydd lleol 'Sir y Fflint yn Cysylltu' yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac unigolion sy'n agored i niwed yn y gymuned sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau ar-lein neu dros y ffôn. Gwelir hefyd amryw o wasanaethau cyhoeddus eraill yn rhannu lleoliadau, er enghraifft, mae swyddfa Sir y Fflint yn Cysylltu yn cynnwys Heddlu Gogledd Cymru a Chanolfan Byd Gwaith.
- mae'r Cyngor yn gweithio gyda chynghorau cyfagos, yr heddlu a'r bwrdd iechyd i archwilio cyfleoedd yn y dyfodol i rannu asedau ac ailddefnyddio asedau sydd dros ben mewn cyrff cyhoeddus eraill.
- yn ystod y pandemig, bu'r Cyngor yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i ddefnyddio asedau Sir y Fflint fel canolfannau brechu gan greu ysbyty dros dro yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy.
- mae gan y Cyngor raglen gwaredu eiddo gweithredol; ni chadwir unrhyw dir nac adeiladau oni bai fod eu hangen at ddibenion gweithredol, cynhyrchu incwm neu safle strategol.

## Caiff cynllun rheoli asedau'r Cyngor ei fonitro ond nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei berfformiad

### Pam mae adolygu'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i asedau yn effeithiol yn bwysig

14 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a'r tymor hwy. Gall

defnyddio data meincnodi roi mewnwelediad defnyddiol ar berfformiad unigol cynghorau a gall nodi cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

15 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae gan y Cynllun Rheoli Asedau 15 o dargedau clir ar gyfer mesur llwyddiant ac mae'r Bwrdd Rhaglen Rheoli Cyfalaf ac Asedau yn monitro cynnydd.
- mae adroddiad blynyddol rheoli asedau'r Cyngor i gynghorwyr mewn pwyllgor craffu yn rhoi gwybodaeth am berfformiad y Cyngor o'i gymharu â chyfres gyfyngedig o ddangosyddion meincnodi asedau cenedlaethol. Ond nid oes llawer o ddadansoddi tueddiadau hirdymor, ac nid yw'r Cyngor yn meincnodi ei ddull o weithredu er mwyn deall ei berfformiad ei hun yn well a nodi meysydd i'w gwella.
- mae'r Cyngor yn casglu rhywfaint o ddata perfformiad lleol ar ei asedau, sy'n cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau, ond nid yw'r data'n cael ei rannu'n eang nac yn cael ei adrodd yn ffurfiol i gynghorwyr.
- mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau rheoli asedau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'n aelod o grwpiau eiddo Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru a Chymdeithas y Prif Syrfewyr Ystadau. Mae hefyd yn cyfrannu at y Gweithgor Asedau Cenedlaethol.

# Gweithlu

## Mae gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei weithlu yn y dyfodol, ond mae'n cydnabod bod angen ei adnewyddu yn dilyn y gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig

16 Pam mae gosod gweledigaeth glir yn bwysig:

- Mae bod â strategaeth glir ar gyfer ei weithlu a chynlluniau cyflawni datblygedig yn bwysig er mwyn sicrhau gweithlu effeithlon ac effeithiol yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae hefyd yn bwysig nodi sut mae strategaeth y gweithlu yn cyd-fynd ac wedi ei hintegreiddio â strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys, rheoli asedau, digidol, a lleihau carbon. Gall dysgu o'r newidiadau a ddaeth yn sgil pandemig COVID-19 byd-eang helpu cynghorau i gryfhau eu gallu i drawsnewid, addasu a chynnal y gwasanaethau a ddarperir.

17 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- nid oes gan y Cyngor Strategaeth Adnoddau Dynol gyfoes, sy'n nodi ei dull dros y tymor byr a'r hirdymor. Daeth ei strategaeth flaenorol i ben yn 2019 ac nid yw'n adlewyrchu'r ffyrdd presennol o weithio yn dilyn y pandemig. Mae'r Cyngor yn bwriadu adnewyddu'r Strategaeth yn ystod 2023. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am ddull hirdymor o weithredu ei strategaeth, sydd wedi'i hintegreiddio â strategaethau allweddol eraill ac sy'n

cael ei chefnogi gan gynlluniau cyflawni wedi'u costio. Dylai'r Cyngor hefyd fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy i lunio datblygiad ei strategaeth newydd.

- er bod data proffil y gweithlu wedi'i hen ddatblygu ac ar gael i'r holl wasanaethau, mae'n ymddangos bod cynllunio gweithlu yn canolbwyntio ar rai adrannau yn hytrach na'r holl adrannau. Nid yw bob amser yn cyd-fynd yn llawn â'r arfer gorau canfyddedig cyfredol mewn 'cynllunio gweithlu' gan ei fod yn canolbwyntio ar ddull 'nodi a llenwi'r bylchau' adweithiol yn hytrach na llywio tymor hwy gweithredol.

## Mae'r Cyngor wedi ymgysylltu â staff a rheolwyr fel rhan o'i brosiect Gweithio Hybrid

### Pam mae rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau arfaethedig i'r gweithlu yn effeithiol yn bwysig

18 Mae'n bwysig bod cynlluniau gweithlu yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn effeithlon ac yn effeithiol fel bod y gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau arfaethedig a bod cynghorau'n cyflawni eu dyletswyddau statudol. Gall cydweithredu effeithiol â sefydliadau eraill a chynnwys cymunedau mewn cysylltiad â'u hanghenion wella'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion. Pan nad oes gan gynghorau yr ystod o sgiliau, yr wybodaeth, na'r arbenigedd i reoli materion gweithlu parhaus yn effeithiol a chyflawni newidiadau strategol, gallai hyn leihau'r gallu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir.

### Mae'r model hybrid o weithio ystwyth yn sgil y pandemig bellach yn weithredol drwy holl wasanaethau'r Cyngor

19 Wrth ddod i'r casgliad hwn nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r model hybrid o weithio ystwyth yn sgil y pandemig a nodir yn ei Bolisi Gweithio Hybrid ym mis Awst 2022 bellach yn weithredol drwy holl wasanaethau'r Cyngor.
- Mae rheolwyr y Cyngor wedi cael trafodaethau gyda staff er mwyn deall beth yw eu dymuniadau o ran trefniadau gweithio yn y dyfodol.
- mae'r Cyngor wedi gofyn am farn staff a chynghorwyr drwy dri arolwg yn ystod y pandemig i ganfod mwy am faterion llesiant a barn ar weithio hybrid yn y dyfodol.
- gweithiodd Adnoddau Dynol a'r Undebau Llafur gyda'i gilydd i gefnogi'r broses o weithredu datblygiadau newydd ym maes iechyd a diogelwch.
- mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw bellach mor gystadleuol o ran cyflog mewn rhai meysydd, megis gweithwyr cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau Plant, a'i fod yn talu ychwanegion i fynd i'r afael â'r mater dros dro.

- mae angen ystod lawn o ddata cyfredol ar gynllunio gweithlu hirdymor nid yn unig am y gweithlu ond am y galwadau a roddir arno. Dim ond pan fydd yr wybodaeth hon ganddo y gellir datblygu dull gweithlu mwy hirdymor. Er bod rhywfaint o wybodaeth ar y galw ar gael, yn fwyaf arbennig ar gyfer galwadau ar weithlu'r gwasanaethau cymdeithasol, ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor yr wybodaeth hon am ei holl wasanaethau.

## Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o faterion cyfredol y gweithlu ond nid yw’n meincnodi ei berfformiad

### Pam mae adolygu'r gweithlu yn effeithiol yn bwysig

20 Dylai cynghorau ddefnyddio data i fonitro a ydynt yn cyflawni eu canlyniadau arfaethedig yn effeithiol ac yn effeithlon dros y tymor byr a'r tymor hwy. Gall defnyddio data meincnodi roi mewnwelediad defnyddiol ar berfformiad unigol cynghorau a gall nodi cyfleoedd i ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill.

21 Wrth ddod i'r casgliad hwn, nodwyd y canlynol gennym:

- mae'r Cyngor wedi datblygu dangosfwrdd er mwyn monitro ac adolygu data'r gweithlu sy'n casglu gwybodaeth allweddol gan gynnwys cyfraddau salwch, swyddi sydd wedi'u hysbysebu dro ar ôl tro; nifer y staff a adleoliwyd, canran y staff sy'n absennol o'r gwaith (yn gyffredinol ac oedolion), er mwyn rhoi trosolwg o fesurau allweddol i'r rheolwyr. Adroddir crynodeb o'r ystadegau hyn i uwch dîm arwain y Cyngor.
- Bu’r Cyngor yn ymgynghori â rheolwyr a staff i ganfod a yw trefniadau gweithio hybrid ac o gartref yn gweithio i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, a chael dealltwriaeth ynghylch yr hyn sy’n gweithio, a’r hyn nad yw'n gweithio.
- Roedd swyddogion y buom yn siarad â nhw o'r farn bod meincnodi cymhariaeth â chynghorau eraill yn anodd ac nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml. Mae angen goresgyn y rhwystrau hyn, gan fod meincnodi effeithiol yn ffordd y gall y Cyngor asesu'n briodol pa un a yw ei drefniadau yn rhoi gwerth am arian.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.